***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2014. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Atodlen yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, ATODLEN 2. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 2

(cyflwynir gan adran 61)

## CYMHWYSTRA I DDERBYN CYMORTH O DAN BENNOD 2 O RAN 2

*Personau nad ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth*

1 (1) Nid yw person yn gymwys i dderbyn cymorth o dan adran 66, 68, 73 neu 75 os yw'n berson o dramor sydd yn anghymwys am gynhorthwy tai.

(2) Nid yw person sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo o fewn ystyr Deddf Lloches a Mewnfudo 1996 yn gymwys am gynhorthwy tai oni bai bod y person hwnnw yn dod o fewn dosbarth a ragnodir gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

(3) Ni chaiff unrhyw berson a eithrir rhag hawlogaeth i gredyd cynhwysol neu fudd-dal tai gan adran 115 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 (eithrio rhag budd-daliadau) ei gynnwys mewn unrhyw ddosbarth a ragnodir o dan is-baragraff (2).

(4) Caiff Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol ddarparu, drwy reoliadau, ar gyfer disgrifiadau eraill o bersonau sydd i'w trin fel personau o dramor sydd yn anghymwys i dderbyn cynhorthwy tai at ddiben Pennod 2 o Ran 2.

(5) Caiff person sy'n anghymwys i dderbyn cynhorthwy tai ei ddiystyru wrth benderfynu at ddibenion Pennod 2 o Ran 2 a yw person sy'n dod o dan is-baragraff (6)—
   (a) yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, neu
   (b) ag angen blaenoriaethol am lety.

(6) Mae person yn dod o fewn yr is-adran hon—
   (a) os yw'r person yn dod o fewn dosbarth a ragnodir gan reoliadau a wneir o dan is-baragraff (2), a
   (b) os nad yw'r person yn wladolyn un o wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 1.12.2014 at ddibenion penodedig gan O.S. 2014/3127, ergl. 2(b), **Atod. Rhn. 2**

VALID FROM 27/04/2015

*Ceiswyr lloches a'u dibynyddion: darpariaeth drosiannol*

2 (1) Hyd gychwyn diddymiad adran 186 o Ddeddf Tai 1996 (ceiswyr lloches a'u dibynyddion), mae'r adran honno yn gymwys i Bennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf hon fel y bo'n gymwys i Ran 7 o'r Ddeddf honno.

(2) At y diben hwn, yn adran 186 o Ddeddf Tai 1996—
   (a) dehonglir y cyfeiriad at adran 185 o'r Ddeddf honno fel cyfeiriad at baragraff 1, a

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2014. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Atodlen yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, ATODLEN 2. (See end of Document for details)*

(b) dehonglir y cyfeiriad at “this Part” fel cyfeiriad at Bennod 2 o Ran 2 o’r Ddeddf hon ac nid Rhan 7 o’r Deddf honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 2 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

VALID FROM 27/04/2015

*Yr Ysgrifennydd Gwladol yn darparu gwybodaeth*

3 (1) Rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol, ar gais awdurdod tai lleol, ddarparu’r gyfryw wybodaeth ag sy’n ofynnol gan yr awdurdod—

(a) o ran a yw person yn berson y mae adran 115 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 (eithrio rhag budd-daliadau) yn gymwys iddo, a

(b) i alluogi’r awdurdod i benderfynu a yw’r cyfryw berson yn gymwys i dderbyn cymorth o dan Bennod 2 o Ran 2.

(2) Pan roddir yr wybodaeth honno ar unrhyw ffurf ac eithrio ffurf ysgrifenedig, mae’n rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol gadarnhau’r wybodaeth honno yn ysgrifenedig os gwneir cais ysgrifenedig i’r Ysgrifennydd Gwladol gan yr awdurdod.

(3) Os yr ymddengys i’r Ysgrifennydd Gwladol bod unrhyw gais, penderfyniad neu newid arall mewn amgylchiadau wedi effeithio ar statws person y rhoddwyd gwybodaeth amdano yn flaenorol i awdurdod tai lleol o dan y paragraff hwn, rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol hysbysu’r awdurdod yn ysgrifenedig am y ffaith honno, y rheswm dros y ffaith a’r dyddiad y daeth yr wybodaeth flaenorol yn anghywir.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. 2 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2014. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Atodlen yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, ATODLEN 2.